
Adolygiad Diogelu Unedig Sengl
Single Unified Safeguarding Review

# Nodyn Briffio 7 Munud ADUS

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: ADUSCymru@llyw.cymru




## CEFNDIR ADUS

Creu proses adolygu sengl lle bo galw am ddull amlasiantaeth. Bydd y broses yn ymgorffori’r prosesau adolygu canlynol: Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol. Yna defnyddir yr adroddiad terfynol i lywio ymarfer proffesiynol drwy Storfa Ddiogelu Cymru.

## Y CYNNYDD HYD YMA

- Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp Strategaeth ar 18 Ebrill.
- Mae adroddiad peilot ADUS Caerdydd a'r Fro bellach wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Diogelu. Mae’r ADUS yn arbed yr angen am dri adolygiad ar wahân (APR, DHR, MHHR). Mae'n rhaid ei gyflwyno i Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref gan ei fod yn cynnwys lladdiad domestig.
- Penodwyd Geldards i ymgymryd â'r Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data ar gyfer y broses ADUS gyfan.

## Y CAMAU NESAF

- Parhau i ohebu gyda Gweinidog y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r Panel Sicrhau Ansawdd a'r angen i anfon adroddiadau ADUS sy'n ymwneud â dynladdiad domestig.
- Cwblhau’r diwygiadau i Ganllawiau Statudol sy'n gysylltiedig â sylwadau a gafwyd gan wasanaeth cyfreithiol Llywodraeth Cymru.
- Parhau i boblogi'r rhestr Cadeiryddion ac Adolygwyr cymeradwy (anfonwch enwebiadau)

## DYSGU GAN ERAILL

- Cynhyrchwyd yr adroddiad canlynol ar gamfanteisio ar blant o'r enw 'Shattered Lives, Stolen Futures'. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn yn y cyfarfod diwethaf gyda Llywodraeth Cymru, Cadeiryddion y Bwrdd Diogelu a NISB ac mae'n gwneud i rywun feddwl.

20240419 Agenda Item 2 - Presentation

## GRŴP CYFEIRIO DIODDEFWYR A THEULUOEDD

- Bydd llais y teulu yn cael ei gynnwys yn y siart llif ymgysylltu, trwy gyfarfod ag aelod o deulu a fu’n rhan o Adolygiad diweddar.
- Trefnwyd cyfarfod gyda dylunwyr i newid y tabl yn siart lif hawdd ei defnyddio.
- Bydd y siart lif yn cael ei rhannu'n ehangach i gael unrhyw sylwadau terfynol.

## DIWEDDARIAD AR STORFA DDIOGELU CYMRU

- Mae'r papur ymchwil prawf ar y thema Iechyd Meddwl, gyda chysylltiadau â gwaith amlasiantaethol a pheidio â chymryd meddyginiaeth, wedi'i gwblhau. Mae'r canlyniad yn dangos yr angen i ddefnyddio'r Storfa ar ddechrau'r broses ADUS i ystyried sut mae materion wedi cael sylw, neu beidio, yn y gorffennol.
- Bydd Archwiliad Hygyrchedd yn cael ei gomisiynu ar gyfer Storfa Ddiogelu Cymru.

## RHAGLENNI HYFFORDDIANT

- Mae'r adborth ar y sesiynau hyfforddiant peilot wedi bod yn gadarnhaol iawn.
- Mae'r hyfforddiant wedi dechrau yn rhanbarth Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru w/d 22 Ebrill. Mae'r galw am yr hyfforddiant wedi bod yn uchel, gan arwain at gynnig dyddiad arall.

**Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd**